# Geiriau Diflanedig

**Robert Macfarlane | Jackie Morris | Mererid Hopwood**

PECYN GWEITHGAREDDAU

Esyllt Hywel Evans
Tîm Ymgynghorol y Gymraeg, Conwy

Yr Ysgwrn



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir | 3 |
| Cardiau Gwybodaeth / Gweithgareddau | 11 – 70 |
| Castan | 11 |
| Cigfran | 14 |
| Clychau'r Gog | 17 |
| Crychydd | 20 |
| Dant y Llew | 23 |
| Drudwy | 26 |
| Dryw | 29 |
| Dyfrgi | 32 |
| Ehedydd | 35 |
| Glas y Dorlan | 38 |
| Grug | 41 |
| Gwenci | 44 |
| Helygen | 47 |
| Iorwg | 50 |
| Madfall y Dŵr | 53 |
| Mesen | 56 |
| Miaren | 59 |
| Neidr | 62 |
| Pioden | 65 |
| Rhedyn | 68 |

# Geiriau Diflanedig: Cefndir

**Amser maith yn ôl, dechreuodd ambell air ddiflannu o enau plant bychain. Rhain oedd y geiriau yr arferai plantos eu defnyddio i enwi'r byd o'u cwmpas. Ond, roedd y geiriau a fu mor dlws i'r plant bychain bellach ar goll – yn eiriau diflanedig.**

Ond mae hud a lledrith rhwng cloriau'r llyfr hwn sy'n gallu galw geiriau yn ôl o ebargofiant. Trwy ddarllen y llinellau gallwn ddwyn yn ôl yr hen eiriau coll a'u cael eto yn loyw yng ngholau cannwyll ein llygad ac yn flasus ar flaen ein tafod.

Mae chwarae gwyllt a llawn dychymyg yn yr awyr iach yn brysur ddiflannu o feddyliau ein plant. Mae'r llyfr hwn yn brwydro yn erbyn diflaniad plentyndod gwyllt ac yn ddathliad arbennig o eirfa natur a'r byd naturiol.

## Geiriau Diflanedig: Pecyn Gweithgareddau

Crëwyd y Pecyn Gweithgareddau hwn gan Esyllt Hywel Evans o Dîm Ymgynghorol y Gymraeg yng Nghonwy ar gais y Parc Cenedlaethol, i gyd fynd ac arddangosfeydd y llyfr Geiriau Diflanedig yn Yr Ysgwrn yn Nhrawsfynydd ac yn Oriel y Parc yn Nhŷddewi.

# Jackie Morris



- Cafodd Jackie Morris ei geni yn Mirmingham yn 1961 ond symudodd i Evesham pan oedd yn bedair oed.
- Roedd Jackie eisiau bod yn artist ers pan oedd yn chwech oed.
- Roedd ei thad yn artist hefyd, a byddai'n ei wylio'n tynnu lluniau a dysgu sut i wneud darluniau ei hun.
- Yn y dechrau roedd hi'n darlunio ar gyfer cylchgronau amrywiol ond yn fuan iawn datblygodd ei diddordeb mewn llyfrau plant.
- Dyma rhai o'r llyfrau y mae'r darluniau wedi eu creu gan Jackie Morris:
    - The Snow Whale (1996) Caroline Pitcher
    - Out of the Ark: Stories from the World's Religions (1996)  Anita Ganeri
    - The Time of the Lion (1998) Caroline Pitcher
    - The Fourth Wise Man (1998) Susan Summers
    - Stories from the Stars: Greek Myths of the Zodiac (1998) Juliet Sharman-Burke
    - Lord of the Dance (1998) by Sydney Carter
    - Grandmother's Song,  Barbara Soros
    - Parables: Stories Jesus Told (2000) Mary Hoffman
    - Animals of the Bible (2003)  Mary Hoffman
    - Lord of the Forest (2004) Caroline Pitcher

# Robert Macfarlane



- Ganwyd Robert Macfarlane yn 1976 yn Rhydychen.
- Astudiodd yng Ngholeg Pembroke yng Nghaergrawnt a Choleg Magdalen yn Rhydychen.
- Mae'n awdur ar lyfrau natur a theithio.
- Rhai o'i lyfrau, nifer ohonynt wedi ennill gwobrau:
  - Mountains of the Mind (2003)
  - The Wild Places (2007
  - The Old Ways (2012)
  - Landmarks (2015)
  - The Lost Words (2017)
  - Underland (2019)

### The Lost Words

Gyda'r arlunydd Jackie Morris cyhoeddodd y llyfr The Lost Words yn Hydref 2017. Daeth y llyfr yn enwog iawn ac enillodd nifer o wobrau. Yn y llyfr mae 20 term o fyd natur, geiriau a ddiflannodd yn dilyn penderfyniad dadleuol iawn o'r Oxford Junior Dictionary, oherwydd diffyg defnydd gan blant. Defnyddiwyd y llyfr fel ymgyrch i hybu plant i ddefnyddio'r geiriau diflanedig o fyd natur a chasglwyd nifer o arian gan elusennau amrywiol i sicrhau copi o'r llyfr i bob ysgol. Mae pob ysgol yng Nghymru wedi derbyn copi gan y Cyngor Llyfrau.

# Mererid Hopwood



- Bardd a Phrifardd
- Cymraes
- Ganwyd yn 1964 yng Nghaerdydd
- Mynychodd ysgolion Bryntaf a Llanhari
- Graddiodd mewn Almaeneg a Sbaeneg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth
- Mae'n byw yn Llangynnwr, Sir Gaerfyrddin gyda'i gŵr Martin ac mae ganddynt dri plentyn Hanna, Miriam a Llewelyn
- Hi oedd y ferch gyntaf erioed i ennill cadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych yn 2001
- Enillodd hefyd goron Eisteddfod Maldwyn yn  2003 a'r Fedal Ryddiaith yng Nghaerdydd yn 2008
- Bu hefyd yn Fardd Plant Cymru yn 2005
- Hi fydd yr Archdderwydd yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf yn 2024
- Mererid Hopwood ysgrifennodd y cerddi yn y Llyfr Geiriau Diflanedig.

# Cerdd Acrostig

Mae'r cerddi gan Mererid Hopwood yn y llyfr Geiriau Diflanedig wedi eu hysgrifennu ar ffurf cerdd acrostig.

**Beth ydy cerdd acrostig?**

- Mae'n hwyl ac yn hawdd i'w ysgrifennu.
- Dim ond llond llaw o reolau.
- Mae angen i lythyren gyntaf pob llinell ysgrifennu gair – gall y gair hwnnw fod yn enw, yn wrthrych neu unrhyw air o'ch dewis. Yn aml mae plant yn defnyddio eu henwau ar gyfer ymarfer.
- Does dim angen gwneud i'r llinellau odli na phoeni am y rhythm maen nhw'n hawdd i'w cyfansoddi.
- Chi sydd yn dewis hyd pob llinell.

**Dilynwch y 4 cam yma i ysgrifennu cerdd acrostig:**

1. Ysgrifennwch y gair yn fertigol lawr ochr chwith y dudalen.
2. Meddyliwch am eiriau neu frawddegau sy'n disgrifio'r thema
3. Rhowch y geiriau gorau yn eu lle ar ddechrau pob llinell

# Yr Ysgwrn

- Ffermdy carreg draddodiadol Gymreig sy'n sefyll yng nghanol prydferthwch naturiol Parc Cenedlaethol Eryri, ger Trawsfynydd.
- Mae'n fwyaf adnabyddus fel cartref y bardd, Hedd Wyn, a gollodd ei fywyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Adeiladwyd Yr Ysgwrn ym 1830, mae waliau cerrig trwchus y ffermdy yn gartref i gegin, parlwr, tair ystafell wely a bwtri, yn ogystal â stabl, cartws a llofft wair.
- Fferm weithiol ydy'r Ysgwrn erioed ac mae'r tir o'i chwmpas yn dal i gael ei ffermio heddiw.

**Mwy o wybodaeth:**

Yr Ysgwrn | Parc Cenedlaethol Eryri

Yr Ysgwrn





# Oriel y Parc Tyddewi

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n berchen ar Oriel y Parc, a dyma gartref Amgueddfa Cymru yn Sir Benfro. Mae'r Oriel wedi ei leoli yn Nhyddewi ar Arfordir Penfro.



**Mae yma:**

- Canolfan Ymwelwyr
- Arddangosfeydd sy'n newid yn rheolaidd.
- Ystafell ddarganfod i'r plant.
- Tŵr artist preswyl. Mae cyfnodau preswyl yn Oriel y Parc yn caniatáu i artistiaid gymryd ysbrydoliaeth oddi wrth harddwch tirwedd y Parc Cenedlaethol a gweithio gyda grwpiau ac ysgolion lleol i greu darnau gwreiddiol o waith celf.



# Allwedd:

- Tasg ieithyddol neu ysgrifennu
- Tasg meddwl neu ddatrys problem
- Tasg celf, crefft neu ddylunio
- Tasg ymchwil neu chwilio am wybodaeth
- Chwarae gêm
- Tasg ddigidol
- Tasg i ateb cwestiwn
- Tasg yn yr ardal tu allan
- Tasg cerddoriaeth



# Castan: Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| Mae'r goeden Castanwydden yn byw rhwng 200 – 800 mlwydd oed. | Mae'r dail yn cael eu defnyddio i greu rhai nwyddau harddwch. |
| Mae eu taldra yn amrywio o 2 - 60 metr a'r lled yn gallu tyfu i hyd at 3.5 metr. | Mae naw gwahanol fath o goeden castanwydden. |
| Mae ganddi risgl sy'n gymysgedd o goch, llwyd a brown sydd yn esmwyth pan mae'r goeden yn ifanc, ac yn mynd mwy garw wrth i'r goeden heneiddio. | Mae gan y gastan ddau groen – mae'r cyntaf yn galed, sgleiniog a brown. Oddi tanodd mae haen arall o groen sy'n gorchuddio'r hadyn. |
| Mae'r dail yn bigog a danheddog sydd tua 10-30cm o hyd a 4-10cm o led. | Castan yw ffrwyth y gastanwydden sy'n tyfu oddi mewn i belen bigog fesul dau neu fwy gan amlaf. |
| Castan ydy'r unig gneuen sydd yn cynnwys fitamin C, mae hefyd yn cynnwys ychydig o haearn, magnesiwm a photasiwm. Amser maith yn ôl byddai pobl yn eu bwyta os nad oedd tatws ar gael. | Mae nifer o anifeiliaid yn bwyta'r castan e.e. sgrech y coed, colomennod, ceirw, baedd gwyllt a gwiwerod. Mae castan hefyd yn addas i bobol fwyta yn amrwd, wedi'i rhostio neu eu berwi. Gellir hefyd ei sychu a'i falu yn flawd. |
| Bydd y goeden yn blodeuo yn hwyr yn y gwanwyn i ddechrau'r haf. | Mae'r goeden Castanwydden fwyaf yn Sisali yn yr Eidal sydd oddeutu 4000 o flynyddoedd oed! |



# Castan: Gweithgareddau





| | |
|---|---|
| Yn defnyddio'r wybodaeth trosodd tynnwch lun o'r goeden castanwydden a'i labelu. | Ar gyfer pa fath o nwyddau harddwch mae'r ddeilen castanwydden yn cael ei defnyddio? |
| Pa eiriau mae Mererid Hopwood yn eu defnyddio yn y gerdd i ddisgrifio castan? | Beth am chwarae'r hen gêm draddodiadol gyda chastan. Sut i chwarae yma: Sut i chwarae Castan? |
| Pa fwydydd eraill yr ydym yn eu bwyta sydd yn cynnwys fitamin C? | Edrychwch ar waith yr arlunydd Tim Pugh a cheisiwch greu gwaith tebyg yn defnyddio adnoddau naturiol. Gwaith Tim Pugh |



# Cigfran: Gwybodaeth







| | |
|---|---|
| Mae rhwng 60 a 78cm o hyd a rhwng 120 a 156cm ar draws yr adenydd. | Mae cigfran yn gallu siarad a gwneud llawer o synau gwahanol.<br>Cigfran yn canu a sgwrsio |
| Gall y gigfran wneud tîn dros ben yn yr awyr wrth hedfan a hyd yn oed hedfan ar ben ei lawr! | Mae cigfran yn aml yn cael eu cysylltu gyda anlwc neu lwc ddrwg. |
| Dyma gân y gigfran.<br>Cân cigfran | Cigfran yw'r aelod mwyaf o deulu'r brain. |
| Maent yn gallu byw hyd at 50 mlwydd oed. | Mae'r gigfran yn anifeiliaid anhygoel o glyfar a deallus.<br>Cigfran: Aderyn clyfar |
| Maent yn nythu mewn coed, ar glogwyni, yn y mynyddoedd neu ger y môr. | Bydd y gigfran yn magu un nythaid o gywion y flwyddyn, rhwng tri a saith o gywion fel arfer. |

# Cigfran: Gweithgareddau



Gwnewch lun cigfran yn defnyddio'r mesuriadau trosodd. Defnyddiwch sialc ar yr iard, neu bapur mawr!


Mae'r gigfran, yn llun yr arlunydd Jackie Morris, yn cario rhywbeth yn ei phig. Beth all hwn fod tybed?

Darllenwch y gerdd cigfran. Mae'r gigfran yn disgrifio ei hun fel Brenhines y Brain. Fel beth arall mae'r gigfran yn disgrifio ei hun?

Beth am greu cerdd acrostig eich hunain yn defnyddio'r wybodaeth trosodd am y gigfran.

Mae gan y gigfran blu dulas trawiadol. Ceisiwch ysgrifennu eich cerdd acrostig yn defnyddio pluen, fel yr oeddent yn ei wneud erstalwm.

Yn llinell 4 mae'r gigfran yn rapio! Ydych chi'n gallu rapio eich cerdd acrostig chi am y gigfran?



# Clychau'r Gog: Gwybodaeth



Mae ganddo nifer fawr o enwau gwahanol e.e. blodyn y drain.

Flynyddoedd maith yn nôl defnyddiwyd y sudd gludiog mewn clychau'r gog i uno tudalennau llyfr ac i ludo plu ar fwa saeth.

Mae llawer o ymchwil yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i sut y gellid defnyddio'r blodyn i gynorthwyo gyda'r frwydr yn erbyn cancr.

Lliw'r blodyn ydy fioled tywyll ac mae'n edrych fel cloch. Mae chwech o betalau arno sy'n cyrlio ar y pen. Mae arogl melys i'r blodyn.

Mae carped clychau'r gog yn werth eu gweld mewn coedwigoedd yn Ebrill a Mai.

Gall clychau'r gog gymryd blynyddoedd i dyfu'n ôl ar ôl cael eu sathru dan draed. Os ydy'r dail yn cael eu gwasgu maent yn marw o ddiffyg bwyd gan nad ydy'r dail yn gallu ffotosyntheseiddio.

Cysylltir clychau'r gog yn aml iawn gyda'r tylwyth teg.

Arwydd cyntaf o'r gwanwyn yw clychau'r gog a bydd yn blodeuo o ddechrau Ebrill hyd ddiwedd Mai.

# Clychau'r Gog: Gweithgareddau

Defnyddiwch dechneg barddoniaeth blacowt i greu cerdd eich hun o'r gerdd clychau'r gog. Dysgwch fwy am y dechneg yma:

**Blackout Poetry**

Mae nifer o artistiaid Cymraeg wedi canu am glychau'r gog. Gwrandewch ar y rhain:

Clychau'r Gog: Gwilym Bowen Rhys
Clychau'r Gog: Hogiau'r Wyddfa
Clychau'r Gog: Tynal Tywyll

Mae clychau'r gog yn aml yn cael eu cysylltu gyda'r Tylwyth Teg. Ysgrifennwch stori ddychmygol am y Tylwyth Teg sydd yn sôn am glychau'r gog.

Defnyddiwch baent dyfrlliw glas a gwyn i greu gwahanol fathau o las. Sawl un allwch chi greu?

Mae hi'n anghyfreithlon i dynnu neu ddinistrio clychau'r gog yn fwriadol. Pam? Darllenwch trosodd am gliwiau.

Mae gan glychau'r gog nifer fawr o enwau gwahanol. Allwch chi ddod o hyd i rai ohonynt?



# Crychydd: Gwybodaeth



**Enwau:** crychydd, crëyr, crŷr,

**Sŵn**: Cân y crychydd

**Edrychiad:** Mae'n hawdd adnabod crychydd o'u gyddfau hir, pig fel cyllell a'r coesau hir main a'r plu llwydlas. Maent yn wych am hedfan a gallant fynd ar gyflymder o hyd at 30 milltir yr awr.

**Maint:** Taldra o tua 1 metr a thua 1.5 metr ar draws yr adenydd ar agor.

**Cynefin:** Maent fel arfer yn byw mewn tir gwlyb neu gorsydd ger afonydd a llynnoedd. Adeiladir y nyth yn defnyddio brigau, dail a mwsogl sydd yn cymryd wythnosau i'w creu weithiau.

**Nythu:** Mewn coed gweddol uchel, heb fod yn bell o lyn, afon neu rywle lle gellir dal pysgod. Ambell dro byddant yn nythu ar lawr, os yw'n ddiogel i wneud hynny.

**Bwyta:** Byddant yn dal pysgod bach a llyffantod wrth sefyll yn llonydd mewn dŵr nes gweld cyfle i saethu ei big hir a miniog i'r dŵr i'w dal. Ambell dro gellir eu gweld mewn caeau yn hela llygod ac anifeiliaid bychain eraill. Gwyliwch yma:
Crychydd yn hela

**Ffaith ddiddorol:** Mae'r Crychydd yn gallu gweld cystal yn y dydd a'r nos.



# Crychydd: Gweithgareddau



| | |
|---|---|
| Defnyddiwch Adobe ar Hwb i greu ffeil o ffaith un tudalen am y crychydd. | Defnyddiwch blu, yr ydych wedi casglu o'r ardal tu allan, i beintio llun. |
| Dewiswch 10 gair o'r gerdd crychydd a'u newid i eiriau cyfystyr e.e. newid cynefin i cartref, cawraidd i enfawr. | Pa anifeiliaid eraill sydd yn gallu gweld cystal yn y dydd a'r nos? |
| Edrychwch ar y dudalen cyn y gerdd crychydd. Mae yma lun o bluen a nifer o lythrennau. Pa eiriau allwch chi eu creu, sy'n disgrifio'r crychydd, yn defnyddio'r llythrennau yma. | Gwrandewch ar un o Chwedlau Aesop 'Y Blaidd a'r Crychydd' yn Saesneg.<br>Chwedl Aesop: Y Blaidd a'r Crychydd<br>Ysgrifennwch yr hanes yn eich geiriau eich hun yn Gymraeg. |



# Dant y Llew: Gwybodaeth




- Mae dant y llew fel arfer yn tyfu mewn lleoedd gyda digon o heulwen.
- Daw'r enw gwreiddiol o'r Ffrangeg "Dent De Lion" sef dant y llew.
- Mae ganddo ddail sydd fel dannedd pigog ac yn mesur rhwng 5 a 25cm o hyd.
- Bydd yn blodeuo yn y dydd ac yn cau dros nos.
- Gall yr hadau deithio hyd at pum milltir cyn glanio ar y ddaear!
- Yn aml mae'n cael ei adnabod fel chwyn gan y garddwr ond mae ganddo nifer o fanteision.
- Dyma glip fideo cylch bywyd Dant y Llew. Cylch bywyd dant y llew

**I beth mae dant y llew yn cael ei ddefnyddio?**

- I wneud meddyginiaeth.
- Llifyn ar gyfer lliwio.
- Mae'n llawn fitamin A, C ac K.
- Lefelau uchel o haearn, calsiwm a photasiwm.
- Dail yn wych ar gyfer diffyg traul, at yr arenau ac i glirio'r gwaed.
- Mae rhai yn bwyta'r dail ar frechdan!
- Wrth dorri'r coesyn fe gewch sudd gwyn; gellir defnyddio hwn ar gyfer gwella defaid ar y croen.
- Gellir defnyddio'r gwreiddiau wedi eu golchi, sychu a'u crasu i wneud coffi.



# Dant y Llew: Gweithgareddau



Fel clychau'r gog mae gan dant y llew amryw o enwau gwahanol. Faint allwch chi ddod o hyd iddynt? Defnyddiwch y gerdd i'ch helpu.

Defnyddiwch y wefan Book Creator i greu llyfryn gwybodaeth ddigidol am les dant y llew i'r corff.

Mae dant y llew yn niwsans i'r garddwr. Dewch o hyd i wybodaeth sydd yn dweud bod hyn yn anwir.

Gall hedyn dant y llew deithio hyd at 5 milltir. Pe byddai'r hedyn yn teithio o ardd yr ysgol, ble fyddai'n cyrraedd?

Gwyliwch y clip fidio cylch bywyd dant y llew. Crëwch ddiagram o'r camau gwahanol.

Defnyddiwch dechneg Japaneaidd Hapa Zome i greu llun o dant y llew. Dilynwch y cyfarwyddiadau yma:

Hapa Zome



# Drudwy: Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| Mae gan y drudwy draed cryf a hediad pendant a chryf. | Mae'n hoffi bwyta ffrwythau a phryfaid. |
| Cân y drudwy | Drudwy gan y Trwbz<br>Y Trwbz: Drudwy |
| Mae'r drudwy yn nythu mewn tyllau yn y coed neu adeiladau. Bydd yn dodwy 4-5 o wyau glas neu wyn. Byddant yn deor ar ôl 12 diwrnod ac yn gadael y nyth ar ôl 21 diwrnod. | Er bod y drudwy yn aderyn brodorol mae mwy yn mudo yma yn ystod misoedd Medi a Hydref o wledydd oerach Ewrop. |
| Drudwy gan Edward H Dafis<br>Edward H Dafis: Drudwy | Gwelir y drudwy yn aml iawn yn hedfan mewn criw mawr.<br>Haid o ddrudwy |


Yn chwedl Y Mabinogi mae Branwen, chwaer y cawr Bendigeidfran, yn hyfforddi drudwy i siarad Cymraeg. Gwrandewch ar yr hanes yma:

Chwedl Branwen





# Drudwy: Gweithgareddau



Darllenwch Chwedl Branwen, neu gwrandewch ar y stori trosodd. Chi yw Branwen, ysgrifennwch y llythyr roddodd hi i'r drudwy.

Mae llawer o dermau gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer criw o anifeiliaid e.e. haid o ddrudwy, gyrr o wartheg. Pa dermau eraill ddefnyddir?

Mae haid o ddrudwy yn gwneud patrymau trawiadol yn yr awyr wrth hedfan gyda'i gilydd. Dilynwch y ddolen yma gan ddewis un i'w ail greu.

Patrymau Haid o Ddrudwy

Mae ambell odl yn y gerdd hon. Allwch chi ddod o hyd iddynt?

Sut mae Mererid Hopwood yn disgrifio sglein plu'r drudwy? Sut fyddech chi'n disgrifio'r sglein?

Pa adar eraill sydd yn mudo yma i Gymru, a pha amser o'r flwyddyn maent yn gwneud hynny?




# Dryw: Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| Mae'n aderyn bychan, 9-10cm o hyd. Mae ganddo blu browngoch gyda llinellau du arnynt. | Cân y dryw:  Yr aderyn bach gyda chân fawr sydd yn gallu canu dau nodyn ar unwaith!<br><br>Cân y dryw |
| Mae'n hoffi bwyta pryfaid, pryfaid cop a phenbyliaid. Mae'n gallu mynd i gilfachau cyfyng yn y creigiau i'w hela. Mae hefyd yn hoffi caws! | Mae'n dodwy rhwng un a naw o wyau a bydd y fam yn eu gwarchod. Ond wedi i'r wyau ddeor bydd y fam a'r tad yn cario bwyd i'r cywion. |
| Pan mae'r dryw wedi tyfu'n llawn bydd yn pwyso'r un faint a darn £1 | Mererid Hopwood yn darllen y gerdd dryw a'r arlunydd Jackie Morris yn ei ddarlunio.<br><br>Dryw |
| Mae dryw yn enwog ym Mhrydain. Roedd ei lun ar yr hen ddarn arian ffyrling gopr. Hefyd yn 2017 bu ei lun ar stamp dosbarth cyntaf yng nghasgliad y Post Brenhinol. | Yn ôl rhai mae brifo dryw yn dod â lwc ddrwg. |





# Dryw: Gweithgareddau



Beth yw ystyr y geiriau yma yn y gerdd?

**gloywder**
**gywrain**
**hysgythru**

Ofergoel yw bod brifo dryw yn dod a lwc ddrwg i ni. Pa ofergoelion eraill sydd yn rhoi lwc ddrwg i ni?

Mae'r dryw yn pwyso'r un faint a darn £1. Beth arall allwch chi ddod o hyd iddo yn y dosbarth sydd yn pwyso'r un faint?

Mae'r dryw yn hoffi bwyta caws! Pa anifeiliaid eraill sydd yn hoffi bwyta caws?

Dewch o hyd i lun o'r ffyrling gopr a'r stamp gyda llun o'r dryw arno.

Ceisiwch dynnu llun o'r dryw i raddfa, yr un maint a dryw go iawn.



# Dyfrgi: Gwybodaeth



- Mae dyfrgi fel arfer yn byw ar ei ben ei hun ond yn cymdeithasu a chwarae mewn grwpiau.
- Dyfrgi ar gamera
- Mae'n gallu tyfu i hyd at 6 troedfedd o hyd.
- Mae'r dyfrgi yn creu cuddfan fel cartref iddo'i hun.
- Mae ganddo goesau byr a chryf a thraed gweog i'w alluogi i nofio, a chynffon lydan i'w lywio mewn dŵr.
- Gall y dyfrgi ddal ei wynt dan y dŵr am hyd at 8 munud.
- Mae'n byw mewn dŵr ffres a hallt.
- Mae'n anifail blewog, mae ganddo got drwchus o flew llwyd-frown tywyll.
- Mae gan y dyfrgi wisgers hir sy'n ei helpu i ddod o hyd i fwyd dan y dŵr. Mae'n hoffi bwyta pysgod.
- Mae'n anifail llwglyd! Gall fwyta hyd at chwarter o bwysau ei gorff mewn diwrnod, oddeutu 11kg.
- Mae'r dyfrgi yn anifail clyfar iawn.
  Dyfrgi clyfar



# Dyfrgi: Gweithgareddau

| | |
|---|---|
| Mae'r bardd yn defnyddio nifer o eiriau i ddisgrifio sut mae'r dyfrgi'n symud. Allwch chi ddod o hyd iddynt? Pa eiriau eraill fyddech chi'n gallu eu defnyddio i ddisgrifio sut mae'n symud? | Peidiwch â thrio dal eich gwynt am 8 munud! Beth allwch chi ei wneud mewn 8 munud? e.e. cerdded i'r siop. Defnyddiwch amserydd. |
| Beth sydd gan y dyfrgi sydd yn galluogi iddo symud yn gyflym yn y dŵr? Pa anifeiliaid eraill sydd gan y rhain? | Mae 11kg yn lawer iawn o fwyd. Defnyddiwch wefan archfarchnad i roi gwerth 11kg o fwyd yn eich basged. |
| Yn defnyddio'r wybodaeth trosodd labelwch lun o'r dyfrgi e.e. cynffon lydan. | Yn yr ardal tu allan adeiladwch guddfan addas i'r dyfrgi. |





# Ehedydd: Gwybodaeth

Aderyn brown yw'r ehedydd gyda bol brown golau gyda phlu hirach ar ei ben, sy'n pwyntio ar i fyny. Mae oddeutu 18cm o hyd ac yn pwyso tua 40g. Wrth iddo hedfan gellir gweld gwyn ar ochr y gynffon ac ar gefn yr adenydd.

Mae'n nythu ar dir agored, rhostir neu gaeau. Adeiledir y nyth ar lawr ac mae'n dodwy 3-6 wy ym mis Mehefin. Hadau yw ei brif fwyd, ond mae'r cywion yn cael eu bwydo ar bryfed. Mae'r cywion yn mynd ar eu pennau eu hunain ar ôl dim ond 14 diwrnod.

Mae'r ehedydd fwyaf adnabyddus am ei gân, ac yn aml mae'n codi'n uchel i'r awyr dan ganu.

Cân Ehedydd


**Yr Ehedydd mewn cerddoriaeth**

Plethyn: Marwnad yr Ehedydd

Cowbois Rhos Botwnnog: Marwnad yr Ehedydd



# Ehedydd: Gweithgareddau



Ceisiwch dynnu llun beth mae'r bardd yn ei ddisgrifio yn yr ail gwpled.

**"Hedfanaist ti, tybed, ymhell tu hwnt i'r byd,**
**gan adael hud dy nodau i syrthio'n gawod sêr?"**

Mae fersiwn Plethyn a Chowbois Rhos Botwnnog o'r gân Marwnad yr Ehedydd yn wahanol iawn. Gwrandewch ar y ddwy gân, gan nodi beth sydd yr un fath a beth sy'n wahanol?

Pam bod Mererid Hopwood yn galw'r ehedydd yn astronot bach? Trafodwch mewn grŵp.

Defnyddiwch adnoddau crefft amrywiol i greu model o'r ehedydd. Mae'n rhaid iddo bwyso 40g.

Pa wybodaeth allwch ddod o hyd iddo ar wefan RSPB am yr ehedyddion brodorol i Brydain.

RSPB: Ehedydd

Ceisiwch ail greu cân yr ehedydd yn defnyddio offerynnau cerdd amrywiol.



# Glas y Dorlan: Gwybodaeth



| | |
|---|---|
| Fel mae'r enw yn awgrymu, mae rhan fwyaf o'r aderyn yn las, a'i fol yn oren llachar. | Mae'r enw Saesneg "*Kingfisher*" yn addas iawn am ei fod yn ddaliwr pysgod penigamp! |
| Mae'n aderyn gweddol fach, oddeutu 19cm ac yn pwyso tua 40g. | Glas y Dorlan yn pysgota |
| Bydd yn bwyta pysgod bach, ac yn eu dal trwy blymio i mewn i'r dŵr a'i dal yn ei big. Fel rheol mae'n eistedd ar frigyn uwchben y dŵr i aros am gyfle i blymio. Bydd wedyn yn dychwelyd gyda'r pysgodyn i'r brigyn, ei daro amryw o weithiau yn erbyn y brigyn i'w ladd cyn ei lyncu yn gyfan! | Byddant yn dodwy wyau cyntaf y flwyddyn oddeutu diwedd Mawrth dechrau Ebrill fel arfer. Bydd pob cyw yn bwyta oddeutu 12 - 18 pysgodyn y dydd, sydd yn golygu bod rhaid i'r oedolion ddal oddeutu 120 pysgodyn y dydd iddynt! Byddant yn cael eu bwydo mewn cylchdro, felly unwaith mae'r cyw wedi cael bwyd bydd yn symud i gefn y nyth gan wthio'r lleill ymlaen. Dim ond am bedwar diwrnod bydd yr oedolion yn bwydo'r cywion, rhaid iddynt fod yn annibynnol wedi hynny. |
| Bydd y cywion bach hefyd yn bwyta pysgod yn gyfan, mae ganddynt asid arbennig yn stumog sydd yn toddi'r esgyrn a'r croen. | Dim ond ar un cyflymder gall glas y dorlan hedfan a hynny'n syth a chyflym. Gall hefyd hofran pan mae'n pysgota uwchben y dŵr. |



# Glas y Dorlan: Gweithgareddau



Defnyddiwch y wybodaeth trosodd a'r ddolen isod i greu ffeil ffeithiau am glas y dorlan.

Kingfisher: Things you need to know

Edrychwch ar y gerdd Saesneg Kingfisher o'r llyfr Lost Words. Cymharwch y ddwy gerdd. Beth sy'n debyg, beth sy'n wahanol?

Pam bod yr enw Saesneg *'Kingfisher'* yn addas i'r aderyn?

Defnyddiwch basteli olew i geisio ail greu darlun Jackie Morris o glas y dorlan.

Ysgrifennwch ymson glas y dorlan. Cofiwch sôn am ei liw, maint, pysgota a bwydo'r cywion.

Mae'r bardd yn cyfeirio at liwiau trawiadol glas y dorlan trwy'r gerdd. Dewch o hyd iddynt.



# Grug: Gwybodaeth



- Fel arfer blodyn piws sydd gan y grug, ond mae blodau gwyn, pinc, glas, a choch i'w gweld hefyd.  Mae rhai yn credu bod grug gwyn yn dod a lwc dda.
- Mae nifer o anifeiliaid yn bwyta grug gan gynnwys defaid, ceirw a'r grugiar.
- Enwau eraill: Grug yr Ysgub, Amrywiaeth Blewog, Eiddiar, Grug y Mêl, Grug y Mynydd, Grug Mawr, Ling, Myncog, Grug y Mêl, Clychau'r Grug, Grug Cochlas, Grug Lledlwyd, Grug Llwydlas, Grug Croesddail, Grug Deilgoes, Grug Croesddeiliog, Grug y Gors
- Hen ddywediadau: aur dan y rhedyn, arian dan yr eithin, newyn dan y grug.
- Mae'n hen draddodiad llosgi'r mynydd a'r hen rug, yn gynnar yn y gwanwyn, er mwyn cael tyfiant newydd.
- Gall y planhigyn grug fyw hyd at 40 mlynedd.
- Mae tri math o rug yn tyfu'n wyllt yng Nghymru, sef grug yr ysgub, grug y mêl a grug croesddail.
- Ers talwm roedd grug yn cael ei ddefnyddio ar gyfer nifer o bethau, gruga oedd yr enw ar hyn: gwely cyffyrddus i anifeiliaid, gwneud ysgubellau, basgedi, rhaffau ac i doi tai, llifo a lliwio lledr a gwlân a'i ddefnyddio fel tanwydd. Mae'n parhau i gael ei ddefnyddio heddiw i wneud cwrw, gwin a the ac yn y byd cosmetig mewn cynnyrch gwallt a chorff a phersawr.

# Grug: Gweithgareddau

Mae nifer fawr o enwau gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer grug. Beth am i chi fathu enwau newydd.

Beth yw ystyr y llinell hon yn y gerdd?

**"Gan nad yw grug fyth yn ddim ond grug,"**

Trosodd sonnir am hen ddywediadau. Beth yw ystyr y rhain?

Gruga: Dewch o hyd i fwy o wybodaeth a lluniau i beth y defnyddiwyd grug erstalwm.

Dewch o hyd i 5 ffaith am y grugiar.

Roedd grug yn cael ei ddefnyddio i lifo neu liwio gwlân. Sut fyddech chi'n llifo gwlân? Ewch ati.



# Gwenci: Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| Mamal bach yw'r gwenci, neu weithiau gelwir ef yn fronwen. | Mae'n byw ar fferm dir, glaswelltir a choetir. |
| Bydd yn bwyta mamaliaid bychain megis cwningod, llygod, llyffantod ac adar a'u hwyau. Dyma glip ohono yn hela: Gwenci yn hela am fwyd | Nid yw eu cyrff yn gallu storio braster felly mae'n rhaid iddynt fwyta'n aml i gael digon o egni. Yn wir, mae'r gwenci yn bwyta tua 50% o bwysau ei gorff pob dydd! |
| Nid yw'r gwenci yn anifail mawr, mae'n oddeutu 23cm o hyd. | Mae ei ffwr yn goch frown ar y cefn ac yn wyn ar y bol. |
| Mae'n debyg i'r carlwm, ond yn llai, ac mae ganddo gynffon fyrrach sydd weithiau a blaen du iddi. | Yn ystod y gaeaf bydd y gwenci yn tyfu ffwr gwyn ac yn newid ei liw. |

Mae'r gwenci yn anifail nosol sydd yn cysgu yn ystod y dydd ac yn actif yn y nos.





# Gwenci: Gweithgareddau

**"Gwibia'r wenci fel tân gwyllt"**
Pa gyffelybiaeth neu gymhariaeth arall allwch chi ddefnyddio i ddisgrifio'r gwenci?

Edrychwch ar yr ail dudalen ar ôl y gerdd wenci. Defnyddiwch y llythrennau i greu geiriau i ddisgrifio'r wenci.

Nid yw'r gwenci yn gallu storio braster. Pa mor bwysig ydy braster i'n cyrff ni?

Mae'r wenci yn dawnsio cyn hela am ei fwyd. Cydweithiwch gyda phartner i greu dawns y wenci.

Mamal ydy'r wenci.

Beth ydy nodweddion mamaliaid?

Mae'r wenci yn rhan o deulu'r Carlymoliaid (mustelidae.) Pwy sy'n perthyn i'r teulu yma?





# Helygen: Gwybodaeth



| | |
|---|---|
| Mae 400 gwahanol fath o helygen, gyda 30 ohonynt yn tyfu yng Nghymru. | Mae gwreiddiau anhygoel o gryf gan yr helygen, sydd yn aml yn achosi trafferth mewn draeniau ac ar balmentydd. |
| Defnyddir helygen i wneud basgedi, golosg a batiau criced. | Gair lluosog am helygen yw helyg. |
| Mae ein diolch yn fawr i'r helygen, heb os un o'r darganfyddiadau mwyaf yn y byd meddygol oedd yr aspirin, a ddaw o'r helygen. | Yr helygen yw'r planhigyn sydd yn tyfu gyflymaf yn y byd, gall dyfu hyd at 3 metr mewn blwyddyn! |
| Mae nifer o ysgolion gyda thwnnel helyg yn eu hardal tu allan. | Mae'r helygen yn enwog am ei defnyddiau meddyginiaethol – yn enwedig y rhisgl ar gyfer lleihau gwres ac atal poen yn y cymalau. |

# Helygen: Gweithgareddau

Helyg yw'r term lluosog am helygen. Dewch o hyd i 10 coeden sy'n tyfu yng Nghymru gan nodi'r term lluosog ar eu cyfer.

Rydych am greu twnnel helyg yn ardal tu allan yr ysgol. Ysgrifennwch gyfarwyddiadau cam wrth gam ar sut i'w greu a sut i ofalu amdano.

Defnyddir helygen i wneud golosg. Ysgrifennwch y camau i greu golosg.

Defnyddiwch olosg / siarcol i ail greu llun Jackie Morris o'r helygen.

Mae'r helygen yn tyfu yn gyflym. Faint mae coed eraill yng Nghymru yn ei dyfu mewn blwyddyn?

Pam bod darganfod aspirin wedi bod mor bwysig i'r byd meddygol?





# Iorwg: Gwybodaeth



**Planhigyn** - bytholwyrdd sy'n tyfu'n agos i'r pridd neu'n dringo yw'r iorwg.

**Dail** - mae dau fath o ddail ganddo, dail crynion sy'n cynnal y blodau a'r ffrwythau, a'r dail â thri phigyn.

**Ffrwyth** - aeron piws, du ac oren - felyn yw'r ffrwyth sydd yn aeddfedu yn hwyr yn y gaeaf. Oherwydd hynny mae'n fwyd pwysig i nifer o adar mewn cyfnod gaeafol.

**Tyfiant** - gall dyfu hyd at 30 metr o uchder ar waliau a coed, bydd hefyd yn tyfu ar hyd y llawr os na fydd wyneb fertigol.

**Bywyd gwyllt** – mae'r iorwg yn cael ei adnabod fel planhigyn sy'n denu bywyd gwyllt, mae'r blodau yn denu dros 70 o wahanol bryfaid i gasglu neithdar a bwyteir yr aeron gan o leiaf 16 o adar amrywiol.  Bydd y carw hefyd yn pori'r iorwg.

**Meddygol** - yn y gorffennol fe'i defnyddiwyd i wella peswch a broncitis, lleihau chwydd, fel anesthetig ac i roi ar lygaid dolurus.  Hyd heddiw mae gwyddonwyr yn defnyddio iorwg i drin cyflyrau fel asthma, broncitis a llid y cymalau (arthritis.)

**Perygl** - mae'r dail yn gallu bod yn wenwynig pe byddech yn eu bwyta.

# Iorwg: Gweithgareddau



Defnyddiwch dechneg barddoniaeth blacowt (blackout poetry) i greu cerdd eich hunain am iorwg o gerdd Mererid Hopwood.

Mae Tu hwnt i'r Bont yn Llanrwst yn enwog am ei orchudd o iorwg, sydd yn newid ei liw gyda'r tymhorau. Sawl lliw gwahanol allwch chi ddod o hyd iddo?

Pam bod yr iorwg yn denu cymaint o fywyd gwyllt? Defnyddiwch y ddolen yma i gael gwybodaeth.

Woodland Trust: Ivy

Mae'r bardd yn defnyddio dau enw arall i'r iorwg ar ddiwedd y gerdd. Beth ydynt? Pa enwau eraill addas allwch chi eu creu?

Mae iorwg yn wenwynig i bobl a rhai anifeiliaid. Pam? Beth yw'r sgil effeithiau o'i fwyta i bobl ac anifeiliaid?

Gall yr iorwg dyfu hyd at 30 metr o uchder! Marciwch y pellter yma ar iard yr ysgol.





# Madfall y Dŵr: Gwybodaeth



- Maent yn gaeafgysgu o dan ddaear, ymysg gwreiddiau coed neu mewn hen waliau.
- Clip fidio o fadfall y dŵr: madfall y dŵr
- Un o'r amffibiaid ydy madfall y dDŵr.
- 3 math ym Mhrydain:

  **Madfall Ddŵr Cyffredin**

  **Madfall Ddŵr Cribog**

  **Madfall Ddŵr Balfog**
- Byddant yn bwyta pryfaid, lindys, pryfaid genwair, gwlithenni a physgod bach.
- Byddwn fel arfer yn gweld madfall y dŵr yn yr ardd neu mewn pyllau bychain. Bydd yn bridio yn y dŵr yn yr haf ac yn treulio gweddill y flwyddyn ar y tir.



# Madfall y Dŵr: Gweithgareddau

Mae madfall y dŵr yn gaeafgysgu. Beth mae hyn yn ei olygu? Pa anifeiliaid eraill sy'n gaeafgysgu?

Amffibiad ydy madfall y dŵr. Beth ydy amffibiad? Pa anifeiliaid eraill sydd yn amffibiaid?

Mae 3 math gwahanol ym Mhrydain. Dewiswch un a chreu taflen wybodaeth amdano. Cymharwch eich gwybodaeth gyda phartner.

Mae'r gerdd madfall y dŵr yn cynnwys yr odlau .....wt, .....all, .....ŵr. Casglwch y geiriau gan ychwanegu at y casgliad.

Dychmygwch bod y dyfrgi a madfall y dŵr yn cyfarfod. Ysgrifennwch sgript o'r sgwrs.

Defnyddiwch arddull Jackie Morris i dynnu llun madfall ddŵr cribog neu madfall ddŵr balfog.





# Mesen: Gwybodaeth



### O ble daw?

Ffrwyth y goeden dderwen ydy'r fesen. Mae dau fath o dderwen yn tyfu yng Nghymru sef Derwen Goesog a'r Dderwen Ddigoes.

### Sut mae'n edrych?

Mae'r fesen fel arfer yn cynnwys un had wedi ei warchod mewn plisgyn caled.  Mae mesen yn cymryd rhwng 6 a 24 mis i aeddfedu'n llawn.

### Pwy sy'n eu bwyta?

Mae nifer fawr o anifeiliaid gwyllt yn bwyta mes fel sgrech y coed, colomennod, hwyaid, cnocell y coed, llygod, wiwerod.  Bydd rhai mamaliaid mawr fel moch, eirth a cheirw yn eu bwyta hefyd. Mae'n wenwynig i rai anifeiliaid fel y fuwch, dafad, ci a cheffyl. Bydd nifer o anifeiliaid y goedwig yn eu storio'n saff at y gaeaf.

### Beth sydd ynddi?

Mae'r fesen yn cynnwys llawer o faeth, gan gynnwys protein, braster a charbohydrad, ynghyd â llawer o fwynau fel calsiwm, ffosfforws a photasiwm.

### I beth mae'n cael ei defnyddio?

Gan fod mes yn gallu bod yn wenwynig mae'n rhaid eu trin yn gyntaf trwy broses arbennig. Defnyddir y fesen wedi'i brosesu i wneud blawd, coffi a'u rhostio i'w bwyta.



# Mesen: Gweithgareddau

Mae Mererid Hopwood yn sôn am y broses o newid yn y gerdd e.e. eira i'r bluen, stori i'r gair. Pa gymariaethau eraill y gellid eu defnyddio yn y gerdd?

**"O'r fesen derwen a dyf"**

Dyma arwyddair un ysgol. Pam bod hwn yn un da?

Beth yw arwyddair eich ysgol chi?

Pa rai eraill allwch chi ddod o hyd iddynt?

Mae mes yn wenwynig i bobl a rhai anifeiliaid. Dyluniwch boster yn rhybuddio pobl am beryglon bwyta mes.

Pa anifeiliaid sydd yn storio mes ar gyfer y gaeaf. Pam? Gweithiwch fel grŵp i ymchwilio.

Beth yr ydym ni yn ei fwyta sy'n cynnwys mwynau fel calsiwm, ffosfforws a photasiwm?

Pam ei fod yn bwysig i'r corff?

**"Tu ôl i'r dorth mae'r blawd.....".** Ydych chi'n gyfarwydd â'r bennill? Dewch o hyd i wybodaeth sut mae creu blawd yn defnyddio mes. Ysgrifennwch bennill byr debyg yn egluro'r broses.



# Miaren: Gwybodaeth



Mae'r fiaren yn blanhigyn cryf a gall fod yn niwsans mewn gerddi oherwydd y gwreiddiau cryf, mae nifer yn cyfeirio ato fel chwyn. Hefyd oherwydd y blagur pigog a miniog gall fod yn beryg i anifeiliaid anwes a phlant.

Bydd miaren fel arfer yn tyfu mewn gwrychoedd, coedwigoedd a thir gwastraff. Mae ganddynt flagur hir a phigog sydd yn aml yn tyfu fel bwa ac yn gwreiddio'n hawdd ac mae'r dail yn flewog!

Mae ffrwyth y fiaren yn boblogaidd iawn fel cynhwysyn pwdin, i wneud jam a jeli ac weithiau gwin a fferins.

Bydd nifer o bryfaid, lindys, adar a cheirw yn bwyta'r dail. Mae'r llwynog a'r mochyn daear yn hoffi'r mwyar.

Mae'r fiaren fel arfer yn blodeuo yng Ngorffennaf ac Awst a'r ffrwyth mwyar duon yn ymddangos ar ddechrau'r Hydref.

Mae'r ffrwyth y fiaren, mwyar duon yn fwytadwy.



# Miaren: Gweithgareddau

Mae'r bardd yn disgrifio'r fiaren mewn llawer o leoedd gwahanol e.e. cloddiau. Allwch chi ddod o hyd iddynt yn y gerdd?

Pa adar sydd yn y llun, trosodd i'r gerdd, yn cuddio yn y mieri?

Ydych chi wedi eu gweld yn y llyfr hwn?

Pa eiriau mae Mererid Hopwood yn eu defnyddio sy'n awgrymu bod y planhigyn miaren yn gryf?

Defnyddiwch fwyar duon i beintio. Sawl lliw gwahanol allwch chi greu?

Ysgrifennwch rysáit pwdin sy'n cynnwys mwyar duon.

Ewch am dro i gasglu mwyar, ble daethoch o hyd iddynt?





# Neidr: Gwybodaeth

Ymlusgiad ydy'r neidr.

Mae neidr yn gigysol, hynny yw mai'n bwyta anifeiliaid eraill.

Nid yw neidr yn gallu cnoi bwyd felly mae'n ei lyncu'n gyfan. Mae ganddynt ên hyblyg sy'n galluogi iddynt fwyta bwyd sydd yn fwy na'u pennau!




Mae croen neidr yn sych a llyfn. Bydd yn bwrw hen groen rhwng 4 – 12 gwaith y flwyddyn.



Bydd y neidr yn arogli gyda'i thafod.

Mae oddeutu 3000 o wahanol fathau yn y byd ond dim ond tri math sydd ym Mhrydain

# Neidr: Gweithgareddau



**“Ruban yn y glaswellt”**

Mae’r bardd yn defnyddio’r trosiad yma i ddisgrifio’r neidr. Beth ydy trosiad? Cydweithiwch gyda phartner i greu trosiadau am y neidr.

**“un wedi dianc o’i chell ei hun”**

Beth mae’r bardd yn sôn amdano yma? Pam bod nadroedd yn gwneud hyn?

Un o’r ymlusgiaid ydy neidr. Beth ydy nodweddion ymlusgiaid?

Pa anifeiliaid eraill sydd yn rhan o deulu’r ymlusgiaid?

Cysylltwch â’r sŵ lleol i ofyn am groen neidr i’w astudio gan geisio ail greu’r patrwm eich hunain.

Mae 3 math o neidr ym Mhrydain, beth ydynt? Dewch o hyd i 10 ffaith am un ohonynt.

Mae rhai nadroedd yn wenwynig ac yn beryglus iawn os cewch eich brathu. Dyluniwch boster yn nodi’r camau i’w cymryd os cewch eich brathu.



# Pioden: Gwybodaeth



| | |
|---|---|
| Mae'n aderyn cyffredin iawn yng Nghymru, ac mae ei niferoedd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. | Gellir adnabod y bioden yn hawdd, gyda'i phlu du a gwyn a'r gynffon hir. Mae'r pen, gwddf a'r fron yn ddu gyda gwawr wyrdd, a'r adenydd a'r gynffon hefyd yn ddu, gyda'r gweddill o'r aderyn yn wyn. |
| Mae'n aelod o deulu'r brain, a thrwy'r byd credir bod oddeutu pymtheg gwahanol fath. | 'Pia' yw gair rhai ardaloedd am bioden. Piod ydy'r term lluosog. |
| Mae tua 40–51cm o hyd. Gyda'r gynffon yn 20–30cm o hyd. | Yn ôl rhai mae'r bioden yn hoff o gasglu gwrthrychau sgleiniog a gemwaith yn ei nyth. |
| Gall y Bioden fwyta bron unrhyw beth, yn cynnwys anifeiliaid wedi marw ac wyau neu gywion adar eraill, ond mae hefyd yn bwyta grawn, aeron a chnau. | Cynefin y bioden fel arfer yw coetir agored, glaswelltir, tir ffermio ond fe'i gwelir yn aml mewn parciau a gerddi mewn ardaloedd trefol. |
| Adeiledir y nyth mewn coeden. Mae'r nyth yn wahanol i nythod y rhan fwyaf o deulu'r brain gan fod tô arno, gyda thwll i fynd i mewn ar un ochr. | Ystyrir y bioden fel un o'r anifeiliaid mwyaf deallus ac mae'n un o'r ychydig anifeiliaid all adnabod ei hun yn y drych! <br> <u>Pioden glyfar</u> |

<u>Cân y bioden</u>



# Pioden: Gweithgareddau



Dewch o hyd i enwau lluosog yr adar geir yn y llyfr Geiriau Diflanedig: Cigfran, Crychydd, Drudwy, Dryw, Ehedydd, Glas y Dorlan, Pioden

**"Edliw, Erlid, Enllibio'n Eithafol"**.

Beth yw ystyr y geiriau hyn yn y gerdd?

**"One for sorrow, Two for joy….."**

Ydych chi'n gyfarwydd â'r hwiangerdd yma?

Dewch o hyd i'r fersiwn Cymraeg a'r arferion wrth weld piod.

**"Nes bod pob creadur ar wyneb y ddaear**

**Y coesog, cennog, pluog, adeinog….."**

Pa fath o greaduriaid mae Mererid Hopwood yn cyfeirio atynt yma?

Mae'r Bioden yn rhan o deulu'r Brain. Dewch o hyd i bwy sydd yn rhan o 'r teulu ac yn perthyn i'r bioden.

Yn defnyddio'r wybodaeth trosodd ac ar y we, crëwch dudalen Wicipedia ar gyfer y bioden.



# Rhedyn: Gwybodaeth

Mae'r rhedyn yn tyfu yn drwchus ar rostir, llechweddi a choedwigoedd.

Bydd y rhedyn yn marw yn ystod y gaeaf gan edrych yn frown ac wedi gwywo. Yn y gwanwyn bydd y rhedyn yn dad gyrlio a thyfu.

Yn y gorffennol fe'i defnyddiwyd fel gwely i'r anifeiliaid, i drin lledr, gwneud sebon, gwneud gwydr ac fel gwrtaith. Heddiw mae'n cael ei ddefnyddio i wneud compost.



Gellir defnyddio rhedyn i wella llosg gan ddanadl poethion trwy ei rwbio ar y croen. Bydd rhedyn yn aml yn tyfu gerllaw danadl poethion.

Mae'n wenwynig i wartheg, cŵn, defaid, moch a cheffylau ac wedi cael ei gysylltu gyda chancr mewn pobl.

# Rhedyn: Gweithgareddau

Mae Mererid Hopwood yn disgrifio'r rhedyn cyrliog fel pen yr offeryn ffidil. Pa wrthrychau eraill sydd yn debyg i'r rhedyn cyrliog?

Pam bod rhedyn yn wenwynig i rhai anifeiliaid?

Beth sy'n digwydd i'r anifail?

Crëwch bamffled gwybodaeth i'w rhannu o amgylch y pentref/dref yn perswadio'r cartref i greu compost. Defnyddiwch y ddolen hon i'ch helpu.

Sut i wneud compost

Gwyliwch y ffilm treigl amser o'r rhedyn yn tyfu. Disgrifiwch y tyfiant yn defnyddio berfau addas.

Fern Time Lapse

Ceisiwch ail greu llun Jackie Morris o'r rhedyn. Dewiswch chi pa gyfrwng fyddai orau i'w ddefnyddio.

Defnyddiwch dechneg Japaneaidd Hapa Zome i greu llun o'r Rhedyn. Dilynwch y cyfarwyddiadau yma:

Hapa Zome.

Yr Ysgwrn

**Cysylltwch â ni:**

Yr Ysgwrn
Trawsfynydd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 4UW

01766 772508
yr.ysgwrn@@eryri.llyw.cymru
www.yrysgwrn.com